

# Myfyrwyr Yn Diffodd UCM

Pasiwyd gan: Y Senedd

Pasiwyd ar: 01/11/2020

Yn darfod ar: **01/11/2023**

**Statws: Cyflawnwyd**

## Swyddog sy'n gyfrifol: Llywydd yr Undeb

### Crynodeb

Dylai Prifysgol Aberystwyth ymuno â rhaglen gynaliadwyedd Myfyrwyr yn Diffodd UCM er mwyn lleihau'r defnydd o drydan a dwr yn neuaddau'r brifysgol, ynghyd â chynyddu ailgylchu!

### Manylion

Mae allyriadau carbon yn sgil llosgi tanwydd ffosil yn achosi newidiadau na ellir eu hadfer i'r amgylchedd, felly mae'n hanfodol lleihau allyriadau cyn i'r sefyllfa fyd-eang waethygu. Er mwyn i Brifysgol Aberystwyth ddod yn garbon niwtral erbyn 2025, rhaid i fyfyrwyr fynd ati'n weithredol, yn ddyddiol ac ar raddfa eang.

Cynllun cynaliadwyedd yw Myfyrwyr yn Diffodd UCM sy'n helpu myfyrwyr mewn neuaddau prifysgol i leihau'r defnydd o ynni a dwr, yn ogystal â chynyddu cyfraddau ailgylchu, i gyd trwy gynnal cystadlaethau rhwng neuaddau ym mhob prifysgol.

Yn ystod y 12 mlynedd diwethaf, mae'r cynllun wedi atal bron i 15,000 tonnell o CO2 rhag cael eu hallyrru, yn ogystal â hyfforddi dros 7,000 o lysgenhadon myfyrwyr y DU. Ar hyn o bryd mae 16 o brifysgolion y DU wedi'u rhestru ar <http://studentswitchoff.org/> fel rhai sy'n cymryd rhan, a chredaf y dylai Aberystwyth ddod yn rhif 17!

Mae cost y cynllun yn amrywio gan ddibynnu ar faint o fyfyrwyr sydd mewn neuaddau, ond rwy'n credu y bydd yr arian a arbedir ar filiau trydan a dwr, ynghyd â darparu agwedd gyhoedduswydd amgylcheddol newydd i'r brifysgol, o fudd cyffredinol i'r brifysgol.

Cyflwynwyd gan: Bethany Wright

## Rhestr Weithredu

Camau a gymerwyd	Enw a Rôl	Dyddiad
Mae'r llywydd wedi gweithio gyda staff yr UMAber i drafod opsiynau ar gyfer Ymgyrch Myfyrwyr yn Diffodd yn fwy lleol ac mae'n gweithio gyda Thîm Cynaliadwyedd y Brifysgol i gael mynediad at yr ystadegau angenrheidiol ar y defnydd o ynni.		